

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Lun, 22 Mai 2017 am 7.00 o'r gloch.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Mr Adrain Jones (Cadeirydd) **AJ**, Miss JA Roberts (is-gadeirydd) **JAR**, Mrs Linda Jones **LJ**, Dr Edward Jones **EJ**, Mr Victor Owen **VO**, Ms R W Owen **clerc**, Mr O G Roberts **OGR**, Cynghorwr Ken Hughes **KH**.

Ymddiheuriadau:

Ms Cari Jones **CJ**.

AJ yn llongyfarch **KH** ar ei etholiad fel aelod o CSYM.

Datgan Diddordeb.

KH ynglyn ac eitem 6.

Cofnodion Ebrill 2017 a unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Adroddwyd fod pawb wedi derbyn copiau o'r cofnodion.

VO yn cynnig eu bod yn gywir, a **LJ** yn eilio.

Nododd y clerc nad oedd byth wedi derbyn cadarnhad gan CSYM ynglyn a chaniatad i osod arwyddion newydd y pentref. Y clerc i bwysleisio pwysigrydd eu gosod cyn yr Eisteddfod ym mis Awst i'r adran briffyrdd eto, ac gofynwyd i **KH** os byddai'n gallu cysylltu a'r adran briffyrdd hefyd.

2. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

OGR yn cynnig cadw i'r un drefn, sef **AJ** fel cadeirydd, ac **JAR** fel is-gadeirydd. **V.O** yn eilio. Dim gwrthwynebiad.

3. Arwyddo datganiadau derbyn swydd ac atgoffiad o'r rheolau sefydlog.

Arwyddwyd y datganiadau derbyn swydd gan bawb. Cafwyd trafodaeth ynglyn a eitem 4 o'r rheolau sefydlog, sef maint y cworwm. Gosodwyd y cworwm yn 3 ar sail 7 aelod, ond gan fod 9 aelod cytunwyd i'w godi i 4.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



4. Hysbysiad o gyf-ethol EJ ac EABT.

Nododd y clerc fod dyddiad cau ymgeiswyr ar gyfer cyf ethol aelodau yn agosau (25 Mai) ac nodwyd nad oedd unrhyw enwau eraill wedi dod ymlaen. Os byddai'r sefyllfa yn ddi-newid cytunwyd byddai **EJ** ac **EABT** yn cael eu cyf-ethol fel dau aelod llawn ar y 25 o Fai 2017.

5. Maes Chwarae/ Ffrindiau Bodedern.

Nodwyd nad oed oedd dim newyddion i'w adrodd.

6. Materion Cynllunio.

6.1 Gate Farm.

Nodwyd Llawer o byrderon ynglyn a'r cais sylweddol yma. Mae angen eglurhad pellach i gadarnhau a fyddai gwastraff dynol yn cael ei ddefnyddio yn y gwaith, a nodi gwrthwynebiad y cyngor os byddai hyn yn digwydd. Yn ogystal, nodwyd fod y ffyrdd yn ymddangos yn annigonol i ymdrin â cynydd a natur y traffig yn ystod y gwaith adeiladu, ac y tancer llaeth wedyn. Nodwyd y byddai hyn yn achosi problemau sylweddol i'r traffig lleol, ac nid oedd yn ymddangos fod y cais wedi ymdrin â'r mater hwn yn ddigonol. Y clerc i ysgrifennu at CSYM yn nodi'r pryderon hyn.

6.2 Humphries Waste Recycling- 13C42E

Dim Gwrthwynebiad.

7. Gohebiaeth

7.1 Rhybudd etholiad genedlaethol gan CSYM.

7.2 Un Llais Cymru. Derbyniwyd lythur gan Un Llais Cymru yn gofyn am ddiweddariad manylion cyswllt cynrychiolwyr y cyngor cymuned. Y clerc i ddiweddarau manylion **AJ** ac **JAR**.

8. Eisteddfod 2017.

Nodwyd fod cyfarfod nesaf Pwyllgor yr Eisteddfod i'w gynnal 13 Mehefin., a pwyllgor cyllid CSYM 6 Mehefin. Nodwyd hefyd fod sesiwn gwybodaeth i'w gynnal yn yr Ysgol Uwchradd.

Cyngor Cymuned Bodedern



9. Cyllideb 17018.

Darparwyd gyllideb yn manylu amcangyfrif costau 17-18. Nodwyd fod llawer o wariant a fydd ddim ond yn berthnasol am un flwyddyn, fel arwyddion newydd. Penderfynnwyd peidio a dynodi swm arbennig ar gyfer ceisiadau am roddion, ond byddent yn cael eu cysidro ar sail pob achos unigol. Cytunwyd i dderbyn y cyllideb.

10. Taliadau i'w gwneud.

Mon GC MGC2259 Rhif Siec 200007 £200.00

Cyflog Clerc Chwefror/Mawrth/Ebrill Rhif siec 200008 £500.00

11. Unrhyw fater arall.

11.1 **E.J.** Nododd fod cais wedi ei gwblhau i Horizon am grant tuag at Bwyllgor yr Esiteddfod.

11.2 **V.O.** Nododd ei fod wedi bod mewn cysylltiad a swyddog o'r R.A.F. a oedd yn gweithio gyda plant mewn cymunedau lleol. Mae wedi gofyn os byddai dymuniad iddo fynychu cyfarfod y cyngor cymuned i drafod sut gallai fod o fydd yn y gymuned. **VO** i basio'r manylion ymlaen i'r clerc, a'r clerc i roi gwahoddid iddo i gyfarfod. Nododd **VO** ei fod hefyd wedi derbyn cadarnhad na fyddai'r awyrennau yn hedfan yn isel dros faes yr Eisteddfod yn ystod y cystadlu.

11.3 Gyda'r awyrennau RAF odan sylw, trafodwyd a oedd unrhyw gynlluniau argyfwng ar waith i ymdrin â digwyddiad ar raddfa fawr. Nododd **JAR** byddai lleoliad arbennig wedi ei glustnodi ar gyfer argyfwng. Y clerc i wneud ymholiadau gyda CSYM ynglyn a chynllun ymdrin a trychineb fawr.

11.4 Nododd **JAR** ac **LJ** bryderon sy'n parhau ynglyn a chyflwr y wal ar gyrion y pentref tuag at y A55. Nodwyd fod y wal yn ymweld i waethygu yn ddyddiol. Nododd y clerc ei bod wedi gyrru llyniau ymlaen i CSYM, ac eu bod yn gwneud ymchwiliad os oes ganddynt unrhyw pwerau gorfodaeth yn y mater.

11.5 Nododd **JAR** fod cyflwr Lon Dywyll yn parhau i ddirywio, ac byddai yn ymddangos byddai'n annodd i bobl gael mynediad yn fuan, heb son am gerbydau. Nododd y clerc fod CSYM wedi cadarnhau fod y gwaith torri ar eu rhestr o waith i gwblhau. Nodwyd hefyd fod y glaswellt ar ochor y ffyrdd wedi tyfu yn uchel iawn ym mhobman. Cadarnhaodd **KH** byddai y gwaith torri yn dechrau yn fuan.

1.6 Nododd **AJ** ei fod yn ymwybodol o gynllyn newydd lle fod swyddogion sydd a camerau gyda pwerau i roi hysbysiad cosb i droseddwr sy'n gadael sbwriel. Gobeithid efalli byddai hyn yn gallu cynorthwyo gyda'r broblem baw ci yn y pentref.

Arwyddwyd :

Dyddiad :

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachaeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com